**ATODIAD 8**

**CYNLLUN TYMOR CANOLIG I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNU 2019/20 - 2021/22**

1. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod wedi medru defnyddio £2.48m o arbedion 'Her Gwynedd' i fantoli cyllideb 2019/20. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru osgoi torri cyllidebau'r ysgolion, codi treth 9%, ayb, eleni.

2. Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2019/20, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2019/20 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.

3. Ers penderfynu ar Strategaeth Ariannol 2018/19 - 2020/21 yn Chwefror / Mawrth 2018, bu gwaith manwl i ail-asesu ymrwymiadau cyllidebol tebygol ac asesu amrediad o bosibiliadau. Er mwyn adnabod yr her ariannol i'r Cyngor, ymhellach i ymchwil trylwyr, nodwyd amrediad o ragdybiaethau am lefel 'setliad' grant y Llywodraeth a gofynion gwario gwasanaethau'r Cyngor, er mwyn darparu senarios ariannol tebygol ar gyfer 2019/20 - 2021/22. Cyflwynir y senarios ariannol yma i'r Cabinet / Cyngor ar ffurf y siart ffan ("twmffat tebygolrwydd") er mwyn adnabod yr angen tebygol am arbedion (neu'r 'bwlch ariannu') hyd at 2021/22.

**Tybiaethau Grant Llywodraeth am 2020/21 a tu hwnt**

4. Wrth daflunio, y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2020/21 ymlaen. Gan mai 'setliad' grant canolog sy'n ariannu 72% o gyllideb net y Cyngor, mae'r elfen yma yn allweddol wrth geisio taflunio'r sefyllfa ariannol.

5. Mae cyfuniad o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn penderfynu faint o grant fyddwn yn ei dderbyn - cyflwr yr economi, polisïau gwario a threthu, a dewisiadau blaenoriaethu Llywodraethau'r DU a Chymru. Er mwyn diweddaru'r tafluniad o'r hyn allai ddigwydd, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i ni rŵan, yn cynnwys y rhagolygon ar gyfer cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU yng Nghyllideb diweddaraf y Canghellor.

6. Mae Llywodraeth y DU yn mynd i gynnal Adolygiad Gwariant yn ystod 2019, sy'n ffactor sylfaenol allasai newid y sefyllfa'n arwyddocaol. Hwn fydd yn penderfynu sut caiff cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU ei rannu rhwng gwahanol feysydd (a drwy hynny, faint fydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn drwy weithrediad "fformiwla Barnett"). Tebyg nad oes angen ychwanegu 'chwaith bod yna haen ychwanegol o ansicrwydd am yr effaith gaiff 'Brexit' ar yr economi a, drwy hynny, faint o arian fydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

7. Er gwaetha'r ffaith bod cymaint o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn ansicr, mae rhaid i'r Cyngor gynllunio'n ddarbodus yn y cyfamser ar gyfer amrediad o sefyllfaoedd posibl. Er mwyn modelu faint fydd o bosib yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol yng Nghymru, ar gyfer y rhagolygon yn yr adroddiad yma rydym wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol am sefyllfa adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, effaith fformiwla Barnett, yr incwm gaiff Llywodraeth Cymru o'r trethi datganoledig newydd, a dewisiadau Llywodraeth Cymru (faint o 'warchodaeth' a roddir i Iechyd a phrosiectau eraill).

8. O ran y ffactor olaf yma, gan nad oes gennym unrhyw wybodaeth bendant am fwriadau Llywodraeth Cymru rydym wedi gorfod rhagdybio y byddant yn parhau â'r un math o drywydd cyllido ag a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf (h.y. rhoi llai o gynnydd i lywodraeth leol o'i gymharu â'r Gwasanaeth Iechyd ac amryw feysydd gwario eraill dan ofal y Llywodraeth). Pe baent yn newid y polisi yma fel bod gwasanaethau'n cael eu hariannu'n fwy cyfartal, byddem angen llawer llai o arbedion pellach yn 2020/21 a 2021/22.

**Gofynion Gwario'r Cyngor**

9. Paratowyd y wybodaeth ariannol mwyaf diweddar am ofynion gwario'r Cyngor ar gyfer cyllideb 2019/20, yn seiliedig ar wir 'chwyddiant' (lefel benodol o chwyddiant ar gyflogau a chyllidebau eraill) a thueddiadau perthnasol, ynghyd â'r 'pwysau ar wasanaethau', gan gynnwys demograffeg (ystadegau nifer disgyblion a nifer pobl hŷn) a bidiau am dŵf anorfod mewn gwariant, net o addasiadau posib er mwyn isafu'r gofyniad ar y gyllideb.


10. Rydym wedi adolygu ein rhagolygon chwyddiant tâl a chwyddiant arall, ac wedi adolygu'r rhagolygon o ran galw am wasanaethau. Wrth gwrs, mae sail y rhagolygon hyn yn llai dibynadwy wrth ddarogan ymhellach i'r dyfodol.

**Senarios Tebygol – angen am arbedion**


11. Mae ffigyrau terfynol mewn llaw ar gyfer 2019/20, ac ymddengys gellid mantoli'r gyllideb drwy gynhaeafu £5.4m o arbedion ynghyd â chynnydd o 5.5% yn lefel y Dreth Cyngor - fydd oddeutu lefel cynnydd cyfartalog awdurdodau lleol Cymru, fel crybwyllwyd yn tybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolig blaenorol.

12. Cyflwynir siart ffan isod ar gyfer y dair blynedd i ddod (2019/20 - 2021/22) sy'n gosod darlun realistig a darbodus o'r hyn allasai ein taro. Mae'r siart ffan "twmffat tebygolrwydd" yn dangos cyfuniad o'r senarios posibl, gan ddangos canlyniadau mewn bandiau 10%.

13. Mae awdurdodau lleol yn tueddu i ddatgan ei 'bwlch ariannu' gros, cyn codi'r gyfradd Treth Cyngor. Mae'r 'bwlch ariannu' a gyfrifir yma gyntaf yn fwlch net, sy'n dangos faint o arbedion fydd angen i'r Cyngor gyflawni er mwyn mantoli'r gyllideb ar ôl codi'r Dreth tua'r cynnydd cyfartalog. Wedyn, mae'r ail siart ffan yn dangos y bwlch gros i bwrpas cymharu ag awdurdodau lleol eraill.



Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2021/22
Fersiwn Chwefror 2019 - ar sail net (ar ôl codi'r gyfradd Dreth
£000
25000
20000
15000
10000
5000
0
-5000
2019/20
2020/21
2021/22
£5.4
£11.8m
£8.8m
£5.7m
£15.4
£11.0
£6.5m


Bwlch ariannol posibl Cyngor Gwynedd hyd at 2021/22
35000
30000
25000
20000
15000
10000
5000
0
-5000
£000
Fersiwn Chwefror 2019 - ar sail gros (cyn codi'r gyfradd Treth
£24.0
£19.5
£17.8m
£14.8
£15.0m
£11.7m
£8.9
2019/20
2020/21
2021/22

**Strategaeth Arbedion 2020/21 a 2021/22**

14. Gallasai fod her sylweddol o flaen y Cyngor dros y 2 flynedd 2020/21 a 2021/22. Gweler o'r siart ffan bwlch net mae'n bosib y bydd angen strategaeth i ganfod cyfanswm posibl hyd at £10m o arbedion ychwanegol erbyn 2020/21 a 2021/22.

15. Gydag ansicrwydd yn deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth San Steffan, mae'n bosib i'r canlyniad fod tu allan i'n 'senarios gorau / gwaethaf' ni ar y siart. Fodd bynnag, os bydd y senario 'canolog' yn digwydd, byddai angen £3.4m o arbedion ychwanegol erbyn 2020/21 a £2.2m pellach erbyn 2021/22 (cyfanswm o £5.6m), a bydd elfen o gynnyrch arbedion 2019/20 (o bosib hyd at £4.2m) ar gael erbyn 2020/21 a 2021/22. Wrth ddiystyru 10% o'r canlyniadau mwyaf ymylol, gall cyfanswm y bwlch am y ddwy flynedd amrywio rhwng £1.1m a £10m.

16. Tra dylai'n trefniadau ni anelu i fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £10m o arbedion, wedi profiad strategaeth arbedion 2019/20, gwyddom pa mor heriol oedd adnabod llai na hanner y swm yna o arbedion. Mae aelodau'r Cabinet wedi ystyried yr effaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd a gweld fod y llinell lle na ellid torri ymhellach yn agosau.

17. Rydym wedi casglu fod y darlun cyffredinol yn ymddangos yn un difrifol iawn i sawl awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n wynebu cryn bwysau eleni, a'u sefyllfa ariannol yn mynd yn fwy bregus. Mae rhai cynghorau wedi mentro a profi llynedd bod dim cyfyngiad 5% ar y codiad treth Cyngor erbyn hyn, ond cofier byddai codiad treth o 5% ychwanegol yn golygu dim ond tua £3.7m ychwanegol i goffrau'r Cyngor. Byddai'r swm hynny ddim yn cwrdd â chwyddiant y Cyngor, tra byddai codiad treth yn rhoi pwysau ar bobl Gwynedd.

18. Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 neu 5 mlynedd. Yn anffodus, mae hynny'n gwbl anymarferol, gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu setliad am un flwyddyn heb ffigwr mynegol am y flwyddyn ddilynol (yn ddealladwy efallai, yn wyneb ansicrwydd ariannol cenedlaethol oherwydd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn ystod 2019, ayb).

**Cynllun Ariannol Tymor Canolig am 3 blynedd**

19. Felly, mae'n synhwyrol i ddelio gyda chyllideb 2019/20 rŵan, a parhau gyda'r strategaeth arbedion i ymateb yn fwy manwl erbyn y ddwy flynedd ddilynol (2020/21 a 2021/22) pryd byddwn wedi adnabod y bwlch ariannu perthnasol gyda mwy o sicrwydd.

20. Yn y cyfamser, tra'n **anelu i fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £5.6m o arbedion pellach** (achos ganolog y rhagolygon) **dros y ddwy flynedd 2020/21 a 2021/22, gan sicrhau fod pob opsiwn effeithiolrwydd yn cael ei ganfod,** rhaid cydnabod bydd hynny'n hynod heriol a dylid **pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddarparu setliad grant briodol** am 2020/21 a thu hwnt.

21. O fewn y gyfundrefn hyn, byddwn yn parhau i weithredu **egwyddorion cyson o ran ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor yn agos i gynnydd gyfartalog awdurdodau lleol Cymru, uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu** (er mwyn osgoi toriadau pellach)**, a gweithredu toriadau ddim ond fel bydd rhaid,** er mwyn diwallu'r balans fydd ar ôl o'r bwlch ariannu.